



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



ASTUDIAETH ACHOS

Myfyriwr Seicoleg

Cyflogwr y Lleoliad: Cyngor ar Bopeth

Beth yw GO Wales?

Mae rhaglen cyflawni drwy brofiad gwaith 'GO Wales', sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a chynyddu eu cyfle o gael swydd addas i raddedigion ar ôl gadael y brifysgol.

Gwybodaeth am y myfyriwr

Roedd y myfyriwr yn ei blwyddyn olaf yn astudio seicoleg ac roedd arni eisiau cymorth i ddod o hyd i leoliad a allai ei helpu i ddeall yn well waith yn ymwneud â rhoi cyngor. Trefnwyd lleoliad iddi gyda Cyngor ar Bopeth - Ynys Môn.

Soniwch beth wnaeth i chi benderfynu cymryd rhan yn y project GO Wales.

Roeddwn i eisiau cael rhywfaint o brofiad gwaith a allai fy helpu i baratoi fy hun ar gyfer swyddi ar ôl i mi raddio. Roedd hefyd yn bwysig cael fy lleoli gyda sefydliad na fyddai'n gwahaniaethu yn erbyn fy hil. Pan welais y Project GO Wales, roeddwn yn teimlo y byddwn yn cael croeso ac y gallwn gael cefnogaeth ar hyd y ffordd.

Oedd y profiad gwaith yn berthnasol i'r llwybr gyrfa rydych chi'n gobeithio ei ddilyn?

I ddechrau, roeddwn i eisiau cael profiad yn ymwneud â seicoleg glinigol / cwnsela, ond mae'n anodd iawn dod o hyd i gyfle o'r fath. Fodd bynnag, daeth tîm GO Wales o hyd i leoliad i mi yn dilyn cynghorwyr yn Cyngor ar Bopeth wrth eu gwaith. Roedd hyn yn cynnwys cael gwybodaeth mewn sgiliau trosglwyddadwy craidd a fydd yn fy helpu i gael swydd ar ôl i mi raddio. Drwodd a thro, roedd yn gyfle perthnasol a gwerthfawr i mi feithrin fy sgiliau cyfathrebu, gwrando a gweithredu a threfnu.

Sut fyddech chi'n disgrifio'r profiad o weithio yn y swydd hon?

Roedd y swydd yn dipyn o her ar y dechrau gan fy mod braidd yn swil a thawel; fodd bynnag, fel Cynghorwr Dinasyddion mae'n rhaid i chi fod yn hyderus a chwrdd â'r cyhoedd yn gyson a'u helpu. Felly, fe wnaeth y swydd wneud i mi ymwroli a chadarnhau fy mhenderfyniad i helpu eraill. Er y gallaf fod yn dawel, pan welais y rhai a oedd angen cymorth roeddwn i yno, yn teimlo'n hyderus ac yn barod i helpu.

Ellwch chi ddisgrifio unrhyw sgiliau newydd wnaethoch chi eu dysgu nad oeddech chi'n disgwyl eu dysgu?

Dysgu gwahanol dechnegau y mae gweithwyr proffesiynol yn eu defnyddio i ddelio â sefyllfaoedd annisgwyl, a hefyd sut mae gweithwyr proffesiynol yn fodlon cerdded yr ail filltir i geisio helpu eu cleientiaid. Rwy'n credu mai bod yn hyblyg, yn feddwl agored ac yn benderfynol oedd y sgiliau nad oeddwn yn disgwyl eu dysgu. Mae hynny yn ei dro wedi fy helpu i ddod yn fwy hyderus ac i feddwl y tu allan i'r bocs yn fwy nag roeddwn yn ei wneud cyn i mi ddechrau'r cyfle hwn

Ydych chi'n teimlo bod y cyfle gwaith hwn wedi eich helpu i ddod dros unrhyw rwystrau?

Ydi, yn bendant roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy nghroesawu a chael fy nerbyn ac rwyf wedi dod yn fwy hyderus nag yr oeddwn i o'r blaen. Mae'r lleoliad wedi rhoi cipolwg i mi ar amgylchedd gwaith



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



go iawn; felly roedd y cyfle yn bendant yn un cadarnhaol iawn ac yn agoriad llygad. Doedd dim ots beth oedd fy hil neu pwy ydw i, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi fel un cyfartal.

Beth yw/oedd uchafbwyntiau gweithio yn y lleoliad hwn?

Byddwn yn dweud bod sawl elfen yn uchafbwynt i'r lleoliad. Un peth oedd y gefnogaeth a gefais gan dîm GO Wales a'm cynorthwyodd ar hyd y ffordd, e.e. i lunio cais a chyda gwaith papur; hefyd y goruchwyliwr a'r gwirfoddolwyr a roddodd bob croeso i mi a dysgu sgiliau gwerthfawr i mi; a'r cleientiaid a oedd yn ddigon dymunol i ganiatáu i mi ddysgu oddi wrthynt ac o bosibl eu helpu. Drwodd a thro roedd yn brofiad gwerthfawr iawn.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fyfyrwr sy'n ystyried gwneud cais i GO Wales?

Os ydych eisoed yn ystyried GO Wales, fy nghyngor i yw i chi fynd amdani oherwydd mae'n gam pwysig ymlaen i gael profiad hynod werthfawr a datblygu sgiliau. Waeth pwy ydych chi, mae rhywbeth y gellwch ei wneud bob amser a chymaint y gellwch ei ddysgu. Gyda chefnogaeth tîm GO Wales, does dim rhaid i chi gerdded ar eich pen eich hun.

Sut ydych chi'n teimlo ynghylch y gefnogaeth a gawsoch gan GO Wales yn ystod y broses hon?

Roedd yn anhygoel ac rydw i mor ddiolchgar am gyfle mor wych a chymaint o gefnogaeth drwyddo draw. Heb dîm GO Wales dwi ddim yn teimlo y byddwn i wedi mentro fel hyn a gwneud rhywbeth cwbl wahanol i fy maes. Diolch yn fawr i chi.

Dywedodd cynghorwr GO Wales:

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r tîm yn Cyngor ar Bopeth Ynys Môn am gynnal y lleoliad hwn a roddodd olwg mor dda i'r myfyriwr ar sut y rhoddir cefnogaeth i aelodau'r cyhoedd a'u helpu i ddatrys problemau a chanfod ffordd ymlaen.

